# SL(5)628 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2020

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bobl sy'n cyrraedd Cymru i ynysu am gyfnod i'w bennu'n unol â'r Rheoliadau hynny. Mae'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i rai eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi'u hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ("gwledydd a thiriogaethau esempt"). Mae Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt er mwyn hepgor Bonaire, Sint Eustatius a Saba, Gwlad Pwyl a Thwrci o'r rhestr.

Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro gwall technegol a nodwyd yn nhestun Cymraeg Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020, a ganfuwyd gan y Pwyllgor hwn wrth iddo graffu ar y Rheoliadau hynny.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Mae'r pwynt canlynol wedi'i nodi i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn penderfyniad negyddol gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 2 Hydref 2020.

Yn benodol, nodwn fod y llythyr yn cadarnhau fel a ganlyn:

> *"Felly, mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod, a'u dod i rym cyn eu gosod, yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."*

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**7 Hydref 2020**